## Cyflwyniad

TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

Ewch ar daith drwy'r Wythnos Sanctaidd gyda'r arteffactau hyn i brocio'r meddwl a galluogi'r plant i ddeall yn well beth ddigwyddodd yn yr wythnos yn arwain at y Pasg.

Mae ysgrifen ar ddwy ochr y cardiau sy'n cyd-fynd â'r arteffactau yn yr adnodd hwn. Ar un ochr ceir gwybodaeth am yr arteffact a sut mae'n ffitio i Stori'r Pasg. Mae'r ochr arall wedi ei chynllunio i roi cyfle i'r plant fyfyrio ar yr arteffact ac ystyried beth allant ei ddysgu drwyddo.

Gall athrawon ddewis defnyddio un ochr yn unig neu'r ddwy ochr i'r cerdyn, yn dibynnu ar oedran y plant a faint maen nhw'n ei wybod ac yn ei ddeall am stori'r Pasg.

## Defnyddio'r Arteffactau

Gellir defnyddio'r arteffactau a'r cardiau mewn sawl ffordd.

- Ar gyfer trafodaeth dosbarth cyfan neu drafodaeth grŵp wrth i blant ddysgu am wahanol ddigwyddiadau wythnos y Pasg.
- Eu gosod fel 'taith ddysgu' mewn gofod mawr, i blant gerdded trwyddo. Gallai hyn fod er mwyn atgoffa'r plant o wersi blaenorol cyn symud ymlaen i wneud gwaith pellach ar y Pasg, neu fel gweithgaredd wrth i'r Pasg agosáu.
- Fel gorsafoedd mewn labyrinth. Efallai y byddai hyn yn well gyda grwpiau llai o blant iddynt allu bod yn dawel a myfyrio. Byddai'n ffocws gwych ar gyfer cyfnod o weddi ac addoliad.

## Eitemau Bocs

1. Deilen Balmwydd a Chroes Balmwydd - gyda cherdyn gwybodaeth
2. Bara a Gwin - gyda cherdyn gwybodaeth
3. 30 Darn Arian - gyda cherdyn gwybodaeth
4. Coron Ddrain (mewn bocs arall) - gyda cherdyn gwybodaeth
5. Hoelion - gyda cherdyn gwybodaeth
6. Lliain a Myrr - gyda cherdyn gwybodaeth
7. Croes Wag - gyda cherdyn gwybodaethd


## Cyflwyniad

TAITH TRWY WYTHNOS Y PASG

Ewch ar daith drwy'r Wythnos Sanctaidd gyda'r arteffactau hyn i brocio'r meddwl a galluogi'r plant i ddeall yn well beth ddigwyddodd yn yr wythnos yn arwain at y Pasg.

Mae ysgrifen ar ddwy ochr y cardiau sy'n cyd-fynd â'r arteffactau yn yr adnodd hwn. Ar un ochr ceir gwybodaeth am yr arteffact a sut mae'n ffitio i Stori'r Pasg. Mae'r ochr arall wedi ei chynllunio i roi cyfle i'r plant fyfyrio ar yr arteffact ac ystyried beth allant ei ddysgu drwyddo.

Gall athrawon ddewis defnyddio un ochr yn unig neu'r ddwy ochr i'r cerdyn, yn dibynnu ar oedran y plant a faint maen nhw'n ei wybod ac yn ei ddeall am stori'r Pasg.

## Defnyddio'r Arteffactau

Gellir defnyddio'r arteffactau a'r cardiau mewn sawl ffordd.

- Ar gyfer trafodaeth dosbarth cyfan neu drafodaeth grŵp wrth i blant ddysgu am wahanol ddigwyddiadau wythnos y Pasg.
- Eu gosod fel 'taith ddysgu' mewn gofod mawr, i blant gerdded trwyddo. Gallai hyn fod er mwyn atgoffa'r plant o wersi blaenorol cyn symud ymlaen i wneud gwaith pellach ar y Pasg, neu fel gweithgaredd wrth i'r Pasg agosáu.
- Fel gorsafoedd mewn labyrinth. Efallai y byddai hyn yn well gyda grwpiau llai o blant iddynt allu bod yn dawel a myfyrio. Byddai'n ffocws gwych ar gyfer cyfnod o weddi ac addoliad.

## Eitemau Bocs

1. Deilen Balmwydd a Chroes Balmwydd - gyda cherdyn gwybodaeth
2. Bara a Gwin - gyda cherdyn gwybodaeth
3. 30 Darn Arian - gyda cherdyn gwybodaeth
4. Coron Ddrain (mewn bocs arall) - gyda cherdyn gwybodaeth
5. Hoelion - gyda cherdyn gwybodaeth
6. Lliain a Myrr - gyda cherdyn gwybodaeth
7. Croes Wag - gyda cherdyn gwybodaethd